Cryno deb

Y Comisiwn Etholiadol

O dan embargo tan 09.30yb
Dydd Mercher 13 Gorffennaf 2011

Adroddiad ar y refferendwm ar bwerau deddfu Cynulliad Cenedlaethol Cymru 3 Mawrth 2011

Cynhaliwyd refferendwm yng Nghymru ar 3 Mawrth 2011 ar bwerau deddfu Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Mae'r adroddiad llawn yn rhoi gwybodaeth ffeithiol ar y modd y rhedwyd refferendwm Cymru. Byddwn yn cyhoeddi adroddiad arall yn hydref 2011 i dynnu at ei gilydd y gwersi a ddysgwyd o refferendwm Cymru a'r refferendwm i'r Deyrnas Unedig i gyd ar y system bleidleisio ar gyfer Senedd y Deyrnas Unedig. Fe fyddwn yn ystyried a ydym am argymell newidiadau yn neddfwriaeth refferenda i Lywodraeth y Deyrnas Unedig, a byddwn yn adolygu ein polisïau a'n harferion ni ein hunain o ran refferenda yng ngoleuni ein profiad yn y ddau refferendwm a'r adborth y byddwn yn ei dderbyn.

Y refferendwm a'n rôl

Mae'r Comisiwn Etholiadol yn gorff annibynnol sy'n adrodd yn uniongyrchol i Senedd y Deyrnas Unedig. Roedd ein cyfrifoldebau yn y refferendwm yn cynnwys:

- rhoi ein barn i Ysgrifennydd Gwladol Cymru ar gwestiwn y refferendwm
- cofrestru ymgyrchwyr oedd yn bwriadu gwario llawer
- pan oedd hynny'n addas, penodi grwpiau i arwain yr ymgyrch dros bob canlyniad a darparu grantiau addas iddynt
- hyrwyddo ymwybyddiaeth y cyhoedd o'r refferendwm a sut i gymryd rhan
- monitro a sicrhau bod pawb yn cydymffurfio â'r rheolau ar wariant refferendwm a chyhoeddi faint yr oedd ymgyrchwyr cofrestredig yn ei wario

Cadeirydd y Comisiwn, Jenny Watson, oedd y Prif Swyddog Cyfrif ar gyfer y refferendwm.

Cwestiwn y refferendwm

Gofynnwyd i bleidleiswyr yng Nghymru a ddylai'r Cynulliad fedru gwneud deddfau ar bob mater yn yr 20 maes pwnc y mae ganddo bwerau ar eu cyfer yn barod, heb unrhyw gytundeb pellach gan Senedd y Deyrnas Unedig. Cyn y refferendwm, roedd gan y Cynulliad bwerau i ddeddfu ar rai materion yn yr 20 maes ond nid y cyfan. Gofynnwyd i bleidleiswyr:

'A ydych yn dymuno i'r Cynulliad allu llunio deddfau ar bob mater yn yr 20 maes pwnc y mae ganddo bwerau arnynt?'

Gwybodaeth i bleidleiswyr

Roedd testun y refferendwm yn un heriol i'w gyfleu i bleidleiswyr. Dangosodd ein hymchwil i'r farn gyhoeddus, a gynhaliwyd yn Ionawr 2011, mai ychydig dan chwarter y bobl a holwyd oedd yn gwybod bod refferendwm yn mynd i fod yng Nghymru. Roedd hyn yn golygu bod gennym rôl allweddol wrth ddarparu gwybodaeth ddiduedd i'r cyhoedd, i geisio pontio'r bwlch o ran gwybodaeth.

Mae democratiaeth yn cyfrif

Cychwynnodd ein hymgyrch wybodaeth gyhoeddus ar 28 Ionawr ac fe redodd hyd ddiwrnod y bleidlais. Roeddem yn anelu at sicrhau bod etholwyr yn gwybod bod refferendwm yn cael ei gynnal, am beth yr oedd a bod ganddynt y wybodaeth oedd arnynt ei hangen i bleidleisio.

Fe wnaethom argraffu 1.5 miliwn o lyfrynnau gwybodaeth a'u dosbarthu i bob aelwyd yng Nghymru. Cefnogwyd hyn gan hysbysebion ar deledu, radio ac yn y wasg. Fe ddarganfu ein gwerthusiad o'n hymgyrch wybodaeth gyhoeddus, erbyn 3 Mawrth:

- dywedodd 75% eu bod yn gwybod bod refferendwm yn mynd i gael ei gynnal, o'u cymharu â 24% yn union cyn ein hymgyrch wybodaeth gyhoeddus
- dywedodd 58% eu bod yn gwybod digon am yr hyn yr oedd y refferendwm amdano, o'u cymharu ag ychydig dros draean (34%) o'r etholwyr cyn cychwyn ein hymgyrch wybodaeth gyhoeddus
- dywedodd 78% eu bod yn gwybod beth oedd angen iddynt ei wneud i fwrw eu pleidlais, o'u cymharu â 47% cyn cychwyn ein hymgyrch wybodaeth gyhoeddus

Roedd 26,169 o ymwelwyr i'n gwefan pleidleiswyr yn www.fymhleidlaisi.co.uk yn ystod cyfnod y refferendwm a 1,200 o alwadau i'n llinell gymorth gwybodaeth gyhoeddus.

Ymgyrchu

Roedd angen i unrhyw un oedd yn bwriadu gwario mwy na £10,000 ar ymgyrchu ar gyfer y refferendwm yn ystod cyfnod y refferendwm gofrestru gyda'r Comisiwn. Cofrestrodd cyfanswm o 23 grŵp neu unigolyn gyda'r Comisiwn. Mae ein hadroddiad yn cynnwys rhestr lawn o ymgyrchwyr cofrestredig.

Mae'r ddeddf yn mynnu bod rhaid i ni bennu grŵp ymgyrchu sy'n arwain ar bob ochr i gwestiwn y refferendwm, neu i beidio â phennu o gwbl. Ni wnaeth yr ymgeisydd dros yr ymgyrch 'Nac Ydw' fodloni'r prawf statudol ac felly ni allem bennu ymgyrchwyr arweiniol. Cafodd hyn ganlyniadau sylweddol, yr ydym yn eu harchwilio yn yr adroddiad llawn.

O ganlyniad i'r ffaith na phennwyd ymgyrchoedd, fe wnaethom gynnig y cyfle i'r ymgyrchwyr cofrestredig osod datganiad 200 gair yn Gymraeg a Saesneg, a dolen i'w gwefannau ar www.fymhleidlaisi.co.uk. Cyfanswm y nifer o ymwelwyr i'r gwefannau dynodedig hyn yn ystod cyfnod yr ymgyrch oedd 10,162.

Darparu'r refferendwm

Mae i refferendwm strwythur rheoli ac atebolrwydd gwahanol i unrhyw etholiad. Mae ein hadroddiad yn esbonio hyn yn fwy manwl. Cafodd y diffyg rheolau generig ar gyfer cynnal y refferendwm ganlyniadau pwysig. Roedd yn golygu bod rhaid i'r rheolau gael eu gwneud ar ôl i'r refferendwm gael ei alw. Esbonnir y canlyniadau yn ein hadroddiad.

Mae'n hanfodol, yn ein barn ni, i'n hargymhelliad i gyflwyno rheolau ymddygiad generig gael ei weithredu gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig. Byddai hyn yn:

- galluogi i refferendwm gael ei gynnal yn fwy cyflym pan fydd yn cael ei alw
- golygu bod y ddeddfwriaeth benodol i bob refferendwm yn gorfod ymdrin yn unig â'r hyn sydd dan sylw, pryd y bydd yn cael ei gynnal a'r cwestiwn fydd yn cael ei ofyn i bleidleiswyr
- yn dwyn eglurder i'r rhai sy'n cynllunio i ymgyrchu ac i'r rhai sy'n rhedeg y refferendwm, gan ganiatáu i'r paratoadau gychwyn yn gynharach
- cael gwared ar unrhyw gyfle i newid y rheolau am resymau gwleidyddol yn ystod y broses o alw'r refferendwm

Profiad pleidleiswyr

Cyfanswm yr etholwyr yn y refferendwm oedd 2,289,044. Fe wnaeth dros 6,000 o bobl fanteisio ar y cyfle i gofrestru i bleidleisio hyd at 11 diwrnod cyn diwrnod y bleidlais, gan awgrymu bod y cyhoeddusrwydd am y refferendwm wedi annog pobl i bleidleisio.

- Pleidleisiodd 815,628 o bobl, hynny yw 35.6% o'r rhai sydd wedi cofrestru i bleidleisio.
- Yn ein harolwg o'r farn gyhoeddus a gynhaliwyd yn syth ar ôl y refferendwm, roedd dynion a menywod bron yr un mor debygol o ddweud eu bod wedi pleidleisio.
- Roedd gwahaniaethau sylweddol yn y tebygolrwydd

o bleidleisio ymhlith grwpiau oedran, gan adlewyrchu'r tueddiadau mewn etholiadau. Dim ond 39% o'r rhai rhwng 18–24 oed a ddywedodd eu bod wedi pleidleisio o'u cymharu â 81% o'r rhai dros 65 oed.

- Yn Sir Gaerfyrddin y gwnaeth y nifer uchaf godi allan i bleidleisio (44.4%) gyda'r nifer isaf yn Wrecsam (27%).
- Rhoddwyd pleidlais bost i 17% o'r etholwyr (dros 380,000 o etholwyr).
- Defnyddiodd 67% o'r rhai y rhoddwyd pleidlais bost iddynt eu pleidlais, gan gynrychioli 30% o'r holl bleidleisiau a fwriwyd.
- Yn ein harolwg o farn y cyhoedd, roedd mwyafrif llethol y pleidleiswyr yn gadarnhaol am eu profiad o bleidleisio mewn gorsafoedd pleidleisio neu trwy'r post.

Cyfrif pleidleisiau

Cyfrifwyd y pleidleisiau o 9yb ar ddydd Gwener 4 Mawrth 2011. Y ganolfan gyfrif genedlaethol oedd adeilad y Senedd Cynulliad Cenedlaethol Cymru Caerdydd.

Mae ein hadroddiad yn esbonio'r rhesymau pam bod y Prif Swyddog Cyfrif wedi rhoi cyfarwyddyd y dylai'r cyfrif ddigwydd yn ystod oriau'r dydd.

Roedd yr holl bleidleisiau wedi cael eu dilysu erbyn 12 hanner dydd gyda'r canlyniad cyffredinol i Gymru yn cael ei gyhoeddi gan y Prif Swyddog Cyfrif yn fuan ar ôl 3yh.

Darlledwyd canlyniadau'r refferendwm o'r ganolfan gyfrif ac fe'u cyhoeddwyd ar yr un pryd ar y wefan benodol i ganlyniadau'r refferendwm. Y gynulleidfa yn ystod prif ffenestr canlyniadau'r refferendwm rhwng 2yh a 3yh ar 4 Mawrth oedd 70,000 ar BBC1 Wales ac 11,000 ar S4C. Mae hyn yn cymharu â chynulleidfa o 15,000 ar BBC1 Wales a 2,000 ar S4C yn ystod prif ffenestr canlyniadau ar gyfer etholiad cyffredinol Senedd y Deyrnas Unedig 2010. Ar 4 Mawrth, ymwelwyd â'n gwefan ganlyniadau ddynodedig dros 7,000 o weithiau, gyda chyfartaledd amser o 13 munud i bob ymweliad.

Canlyniad y Refferendwm

Mae'r adroddiad llawn yn cynnwys y canlyniadau llawn o'r holl ardaloedd pleidleisio. Canlyniad y refferendwm oedd:

- Pleidleisiodd 63.5% o'r pleidleiswyr, sef 517,132 o bobl, 'Ydw'.
- Pleidleisiodd 36.5% o'r pleidleiswyr, sef 297,380 o bobl, 'Nac Ydw'.
- Pleidleisiodd pob un ond un o'r 22 ardal bleidleisio 'Ydw', a Mynwy yn pleidleisio 'Nac Ydw'.

Cost y refferendwm

Cyfanswm cost y refferendwm oedd £5.89 miliwn. Mae hyn yn cynnwys costau o £4.49 miliwn a dynnwyd gan Swyddogion Cyfrif mewn awdurdodau lleol wrth redeg y refferendwm. Nid yw'r cyfrifon yma yn rhai terfynol eto ac mae'r costau yn cael eu talu gan Lywodraeth Cymru. Ein costau ni oedd £1.4 miliwn, a dalwyd o Gronfa Gyfunol y Deyrnas Unedig. Mae ein hadroddiad yn rhoi rhagor o fanylion am y ffigyrau hyn.

Gallwch ddarllen yr adroddiad llawn yn.

www.comisiwnetholiadol.org.uk.

Rhagor o wybodaeth

Cysylltwch â:
Swyddfa Cymru
Tŷ Caradog
1–6 Plas Sant Andreas
Caerdydd CF10 3BE

Ffôn 029 20346800
Ffacs: 029 20346805

E-bost gwybodaeth@comisiwnetholiadol.org.uk
www.comisiwnetholiadol.org.uk

Rydym yn gorff annibynnol a sefydlwyd gan Senedd y DU. Ein nod ywunplygrwydd a hyder y cyhoedd yn y broses ddemocrataidd. Rydym yn rheoleiddio cyllid pleidiau ac etholiadau ac yn gosod safonau ar gyfer etholiadau sy'n cael eu cynnal yn dda.

Am ragor o wybodaeth gweler www.comisiwnetholiadol.org.uk

Y Comisiwn Etholiadol